Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl: Newid y prawf modd

Emma Taylor-Collins, Dan Bristow, Gareth Morgan ac Isabelle Carter

Mawrth 2021

# Ein Hamcan

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru'n helpu gwella'r modd y gwneir polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gynorthwyo gweinidogion ac arweinwyr gwasanaeth cyhoeddus i gael a defnyddio tystiolaeth annibynnol gadarn am beth sydd yn gweithio. Mae'r Ganolfan yn cydweithio gydag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gasglu a defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael ac i nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn cydweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut i ddelio â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi, a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cynorthwyo Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, canfod a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu sefydlu a gwella polisïau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i ganfod, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch beth sy'n gweithio wrth ymateb i heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; ac yn
- Defnyddio'i waith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i gynyddu dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio tystiolaeth i lunio a gwella polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at theorïau am lunio a gweithredu polisi.

Trwy gynlluniau secondio, lleoliadau PhD a'i rhaglen Brentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu adeiladu gallu ymysg ymchwilwyr i ymwneud ag ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau, ac yn cael effaith arnynt.

Am wybodaeth bellach ewch i'n gwefan https://www.wcpp.org.uk/cy/

## Cyllidwyr Craidd

**Prifysgol Caerdydd.** Sefydlwyd y brifysgol uchelgeisiol ac arloesol hon yn 1883 yn ein prifddinas fyrlymus. Mae'n benderfynol o adeiladu cysylltiadau rhyngwladol cryf tra'n dangos ei hymrwymiad i Gymru.

**Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC).** Rhan o UK Research and Innovation, corff newydd sy'n cyfuno saith cyngor ymchwil y Deyrnas Unedig, Innovate UK a Research England i gael y gorau o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau ar gyfer ffyniant ymchwil ac arloesedd.

**Llywodraeth Cymru.** Llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol mewn bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Crynodeb** 5

**Cyflwyniad** 6

**Cwestiynau a dull yr arolwg** 6

**Sut y dylid diffinio grantiau CiA bach a chanolig?** 7

**Sut mae'r prawf modd yn gweithio?** 9

**Beth yw goblygiadau cyfreithiol dileu'r prawf cyfoeth?** 10

Beth yw perthynas grantiau CiA â budd-daliadau eraill? 10

Pa ddeddfwriaeth sydd ei hangen i newid y prawf modd? 12

Defnyddio Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002 i newid y prawf modd 12

**Beth yw goblygiadau ariannol dileu'r prawf modd?** 13

Costau hanesyddol cyfraniadau heb y prawf modd 13

Costau gweinyddol profion modd 19

Effaith newidiadau ar ffynonellau cyllid eraill ar gyfer addasiadau 20

Y posibilrwydd y ceir mwy o geisiadau 21

**Beth yw goblygiadau cymdeithasol dileu'r prawf modd?** 24

Priodoleddau ymgeiswyr am grantiau CiA 24

Pwy fyddai'n gweld yr effaith, a sut? 25

**Beth yw canlyniadau ymarferol dileu'r prawf modd?** 26

Delio â goblygiadau ariannol cynnydd mewn ceisiadau 26

Goblygiadau o ran sicrhau adnoddau 27

Amserau aros 28

**Casgliadau** 30

**Cyfeiriadau** **32**

**Atodiad: Methodoleg dadansoddi data** **34**

# Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio sylwadau ymarferwyr a dadansoddiad data i asesu sut y gallai dileu'r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (grantiau CiA) bach a chanolig effeithio ar awdurdodau lleol yng Nghymru.

- Dosberthir grantiau CiA bach a chanolig yn ôl y math o waith, ac argymhellir y diffiniad hwn dros un sy'n defnyddio terfyn ariannol.

- Mae deddfwriaeth yn mynnu bod rhaid cael prawf modd ar gyfer grantiau CiA (gydag ambell eithriad), ac mae rheoliadau'n gosod manylion sut y dylid gwneud y prawf. I ddileu'r prawf modd byddai'n rhaid cael deddfwriaeth newydd.

- Gall awdurdodau lleol wneud addasiadau heb ofyn am brawf modd gan ddefnyddio pwerau a roddir dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (2002), ac maent yn gwneud hynny. Dyma'r ffordd symlaf i wneud newidiadau, ond gan fod defnyddio'r Gorchymyn yn fater i bob awdurdod lleol, gall y gefnogaeth amrywio ar draws Cymru.

- Amcangyfrifwyd costau cyfalaf ychwanegol o £238,216 am ddileu'r prawf modd ar gyfer gwaith bach a chanolig yn 2018-19, yn amrywio o £2,770 i £47,516 mewn awdurdodau lleol unigol, gyda chynnydd llai na £10,000 mewn 14 o'r 22 awdurdod.

- Tystiolaeth gyfyngedig sydd o gostau cynnal y prawf modd, ond maent yn amrywio o awdurdod i awdurdod ac amcangyfrifir eu bod yn fach iawn.

- Gallai dileu'r prawf modd ar gyfer gwaith bach a chanolig effeithio ar sut y defnyddir cynlluniau ariannu eraill ar gyfer addasu tai, ond bydd hyn yn amrywio rhwng awdurdodau lleol.

- Does dim modd rhagweld faint y mae ceisiadau'n debygol o gynyddu wedi dileu'r prawf modd, ond gwelwyd cynnydd ar y cyfan gan awdurdodau lleol a wnaeth hynny.

- Byddai dileu'r prawf modd yn helpu rhai sydd ddim ar fudd-daliadau, yr ystyrid fel arall eu bod yn abl i wneud addasiadau ar eu traul eu hunain.

- Dywed awdurdodau lleol yng Nghymru nad oes ganddynt adnoddau ar hyn o bryd i reoli cynnydd mewn ceisiadau am grantiau CiA. Pe bai ceisiadau'n cynyddu heb adnoddau ychwanegol, byddai amserau aros yn debygol o gynyddu hefyd.

- Gallai Llywodraeth Cymru ddiweddaru canllawiau ar gyfer dileu'r prawf modd i weithiau bach a chanolig, a gadael i awdurdodau lleol ddefnyddio pwerau dan Orchymyn 2002. Dylid ystyried sut i ymateb i bryderon ariannol a monitro'r effeithiau ar lefel ranbarthol yn barhaus.

# Cyflwyniad

Gofynnodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ymchwilio i oblygiadau dileu'r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (grantiau CiA) bach a chanolig.

Yn 2019 yng Nghymru roedd 22% o'r boblogaeth yn anabl (StatsCymru, 2019), gyda disgwyl i'r boblogaeth anabl gynyddu'n sylweddol erbyn 2035 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018; Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). Grantiau seiliedig ar brawf modd yw grantiau CiA, i berchen-feddianwyr a thenantiaid (preifat neu gymdeithasol) sy'n anabl, i helpu tuag at gostau i sicrhau bod eu cartref yn hygyrch. Grantiau gorfodol ydynt, a chânt eu hariannu a'u gweinyddu gan awdurdodau lleol o gronfeydd heb eu neilltuo.

Pennir y swm mwyaf y gellir ei roi trwy grant CiA (£36,000) mewn deddfwriaeth (Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Uchafsymiau a Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2008), a thrafodir profion modd yn Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996. Gall awdurdodau lleol benderfynu talu am addasiadau drwy ddefnyddio pwerau disgresiwn dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002, un ai fel taliad atodol neu yn lle grant CiA.

Yn 2018 cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar Addasiadau Tai (SAC, 2018). Er mwyn sicrhau bod grantiau CiA yn cael eu darparu'n fwy amserol, nododd yr adroddiad y dylai Llywodraeth Cymru adolygu a ddylid parhau i osod prawf modd ar grantiau CiA. Yn dilyn hynny, cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymchwiliad i'r materion a godwyd gan y Swyddfa Archwilio, ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu trefniadau cyfredol y prawf modd, ynghyd â chynnig rhai diwygiadau eraill (Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 2018).

Mewn ymateb i hyn, mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn ystyried cyhoeddi canllawiau newydd ynghylch grantiau CiA, yn benodol ynghylch dileu'r prawf modd ar gyfer grantiau bach a chanolig.

# Cwestiynau a dull yr arolwg

Wrth gomisiynu'r adroddiad hwn, gofynnodd y Gweinidog inni ystyried y cwestiynau canlynol:

- Sut y dylid diffinio grantiau CiA bach a chanolig?
- Beth yw goblygiadau ariannol dileu'r prawf modd ar gyfer addasiadau bach a chanolig?

- Beth yw'r goblygiadau cyfreithiol?
- Beth yw'r goblygiadau cymdeithasol?
- Beth yw'r canlyniadau ymarferol?

I ateb y cwestiynau hyn, gwnaethom astudiaeth gan ddefnyddio dulliau cymysg. Dadansoddwyd data gan ddefnyddio'r data diweddaraf oedd ar gael ar StatsCymru; dangosir y fethodoleg yn yr Atodiad. Ategwyd hyn â dadansoddiad o ddeddfwriaeth berthnasol i grantiau CiA a sgyrsiau gydag ymarferwyr mewn awdurdodau lleol yn Lloegr a oedd eisoes wedi gwneud newidiadau i'r prawf modd ar gyfer grantiau CiA, ac ymarferwyr mewn awdurdodau lleol yng Nghymru ynglŷn ag unrhyw newidiadau roeddent hwythau wedi'u gwneud, ynghyd â chael eu barn ar y newid arfaethedig.

# Sut y dylid diffinio grantiau CiA bach a chanolig?

Gellir diffinio grantiau CiA bach a chanolig mewn gwahanol ffyrdd. Rhoddwyd prawf ar ddau ddiffiniad posib o grantiau bach a chanolig gydag ymarferwyr yng Nghymru:

**A** Yn ôl y math o waith (dull Llywodraeth Cymru, 2019a).

**B** Terfyn ariannol (e.e. hyd at £6,000)

Yn ôl Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Addasiadau Tai, diffinnir addasiadau bach a chanolig yn ôl y math o waith sydd angen ei wneud (gweler **Tabl 1**). Yn ôl y canllawiau, tra caiff addasiadau canolig a mawr eu hariannu drwy grantiau CiA, sy'n gofyn am brawf modd, nid yw hynny'n wir am addasiadau bach. Yn hynny o beth, nid argymhellir y prawf modd ar gyfer grantiau bach ar hyn o bryd, ac felly bydd goblygiadau unrhyw newidiadau'n effeithio'n bennaf ar y prawf modd ar gyfer grantiau canolig.

### Tabl 1: Diffiniadau o wahanol fathau o addasiadau tai

| Categori | Natur y gwaith | Enghraifft o'r gwaith |
|---|---|---|
| **Addasiadau bach** yw eitemau rhad y gellir eu darparu'n gyflym iawn. Byddent fel arfer wedi'u cynnwys dan bennawd 'atal syrthio ar unwaith' neu 'brys wrth ryddhau | • Angen mân addasiad i'r cartref<br>• Ddim yn waith arbenigol<br>• Dim angen cymeradwyaeth adeiladu/cynllunio<br>• Addasadwy/hyblyg | • Canllawiau cydio<br>• Canllawiau grisiau<br>• Rampiau bach<br>• Tapiau hygyrch<br>• Blwch allwedd |

| | | |
|---|---|---|
| o'r ysbyty' a gellir eu hasesu a'u gosod o fewn dyddiau neu ar yr un diwrnod os yw'n fater brys. Gellir eu pennu gan nifer o weithwyr hyfforddedig ym maes iechyd/ gwasanaethau cymdeithasol/ eraill, e.e. staff LCC, Gofal a Thrwsio. | • Syml a rhwydd<br>• Dim angen gwaith cynnal a/neu gwasanaeth | • Canllawiau coes mop<br>• Canllawiau allanol<br>• Goleuadau allanol/grisiau<br>• Socedi trydan ychwanegol |
| **Addasiadau canolig** yw unrhyw beth sydd heb ei ddosbarthu'n fach neu fawr. | Gall fod angen addasiad mawr i'r cartref, ond heb fod angen cymeradwyaeth cynllunio. | • Cawod heb ris i fynd iddi<br>• Lifft risiau<br>• Rampiau mawr<br>• Un darn o waith yn gosod cyfuniad o addasiadau |
| **Addasiadau mawr** yw gweithiau fydd yn gofyn am asesiadau arbenigol, cymeradwyaeth statudol ac addasiadau mawr i eiddo megis estyniadau a lifftiau sy'n codi trwy loriau. Bydd angen asesiad Therapydd Galwedigaethol ac, efallai, caniatâd cynllunio. | • Angen addasu/newid adeiladwaith y tŷ yn sylweddol<br>• Angen atebion arbenigol/arloesol<br>• Angen cymeradwyaeth adeiladu/cynllunio<br>• Gwaith sefydlog/ parhaol/hirdymor<br>• Gwaith cymhleth/ anghyfarwydd/angen hyfforddiant a goruchwyliaeth<br>• Ateb yn gofyn am arbenigedd o ran gosod a chynnal a chadw | • Adeiladu estyniad i roi ystafell wely a/neu ystafell molchi ar y llawr gwaelod<br>• Lifft trwy'r llawr<br>• Addasiadau sylweddol i du mewn yr adeilad e.e. adleoli ystafell molchi neu gegin |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2019a: 10).

Dywedodd ymarferwyr yn awdurdodau lleol Cymru y byddai'n well ganddynt gadw diffiniad seiliedig ar y Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau Tai. Cytunodd bron bawb fod y safonau cyfredol yn briodol, er bod eu rhesymeg yn amrywio. Nododd

amryw fod cost rhai addasiadau canolig yn amrywio o awdurdod i awdurdod, fel bod diffinio ar sail safonau'n fwy priodol na diffinio ar sail cost. Dadleuodd un fod diffinio ar sail safonau yn well na gosod terfyn ariannol gan ei fod yn caniatáu i awdurdodau lleol a chontractwyr ddelio'n well ag amryfuseddau yn y broses addasu fel na chaiff pobl eu cosbi am fod eu tai'n gofyn am addasiadau mwy cymhleth neu anghyffredin.

Er gwaetha'r cytundeb cyffredinol hwn, mae yna nifer fach a fyddai'n ffafrio diffinio ar sail gwerth. Dadleuodd un fod y safonau'n agored i'w dehongli o ran sut i wahaniaethu rhwng addasiadau bach a chanolig, gan awgrymu y byddai terfyn ariannol yn rhoi llinell glir rhwng addasiadau bach a chanolig. Ond ni fyddai hyn yn broblem wrth beidio â chael prawf modd ar gyfer addasiadau bach na chanolig. Gallai terfyn ariannol fod yn anodd hefyd oherwydd cost anhysbys rhai addasiadau yn y cyfnod pan fyddai'r cais yn cael ei gyfeirio, a'r potensial i gostau gynyddu yn ddiweddarach yn y broses.

Gan mai dewis yr ymarferwyr fyddai dosbarthu addasiadau yn ôl y math o waith (gan ddilyn y Safonau Gwasanaeth ar Addasiadau Tai) yn hytrach na therfyn ariannol, rydym wedi defnyddio diffiniad seiliedig ar safonau drwy gydol yr adroddiad hwn wrth ystyried goblygiadau unrhyw newidiadau.

# Sut mae'r prawf modd yn gweithio?

Mae Deddf Grantiau Adnewyddu Tai 1996 yn pennu bod rhaid cynnal prawf modd ar gyfer cais am grant CiA. Amlinellir manylion y prawf mewn rheoliadau. Gwneir y prawf modd ar y 'person perthnasol', sef y person y bydd y gwaith yn fanteisiol iddo/iddi a'r teulu ar yr un aelwyd. Nid yr ymgeisydd fydd hwn bob tro. Fel arfer, y perchennog neu'r tenant fydd yn gwneud y cais. Ni cheir prawf modd bellach i bobl dan 18.

Mae'r prawf modd yn asesu incwm y 'person perthnasol' ac yn ei gymharu â'r 'swm cymwys' – sef y swm y tybir yn fras sy'n ateb anghenion beunyddiol yr ymgeisydd. Lle bo incwm yr ymgeisydd yn uwch na'r swm cymwys, gofynnir iddynt wneud cyfraniad tuag at y gwaith. Mae lefel y cyfraniad yn dibynnu ar faint o incwm 'gormodol' sydd (h.y. incwm dros y 'swm cymwys') ac amcangyfrif o'r benthyciad y gellid ei wasanaethu gyda'r 'gorelw' hwn. Mae'r amcangyfrif yn wahanol i berchnogion i'r hyn ydyw i denantiaid, ar y dybiaeth y gallai'r rhai sy'n berchen ar eu tai sicrhau benthyciad yn rhatach.

Un feirniadaeth ar y ffordd hon o weithredu'r prawf modd yw y defnyddir cyfraddau Budd-dal Tai i gyfrifo'r 'swm cymwys', a'r cyfraddau hynny heb godi ers Awst 2009. Gan fod y prawf modd yn dibynnu ar gymharu incwm â'r 'swm cymwys', mae unrhyw gynnydd mewn enillion ac incwm arall dros y cyfnod, er yn isel i lawer, yn gyffredinol

wedi arwain at gynnydd yn yr incwm 'gormodol' a aseswyd ar gyfer achosion eraill tebyg.

Ystyrir yn gyffredinol ei bod yn arferiad da gweinyddu 'prawf modd rhagarweiniol', sef fersiwn byrrach a chyflymach o'r prawf modd llawn, i amcangyfrif a allai fod gofyn i ymgeisydd gyfrannu tuag at yr addasiadau, ac os oes, oddeutu faint fydd y swm. Bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwneud y prawf modd rhagarweiniol hwn yn ogystal â'r prawf modd llawn. Seilir y prawf modd llawn ar amgylchiadau'r ymgeisydd ar ddyddiad y cais ffurfiol.

Dadleuodd rhai ymarferwyr fod y prawf modd yn hen-ffasiwn a chymhleth ac y dylid ei ddiweddaru i adlewyrchu costau byw cyfredol, barn a adleisiwyd hefyd mewn gwaith blaenorol ar grantiau CiA (Bibbings et al., 2018). Mae hyn yn berthnasol i'r cyfrifiadau ariannol a hefyd i'r modd y'i gweinyddir. Mae gan un awdurdod lleol restr wirio syml a ddefnyddir i asesu cyfraniadau potensial lle nad oes angen ymweliad â'r cartref na gwaith papur helaeth i'w gyflwyno gan yr ymgeisydd. Mae un arall wedi rhoi'r gorau i fynnu bod ymgeiswyr yn darparu copi o weithredoedd eu tŷ fel prawf o berchenogaeth (y gall fod yn anodd i rai ymgeiswyr gael gafael arnynt) ac yn defnyddio data'r dreth gyngor yn lle hynny.

# Beth yw goblygiadau cyfreithiol dileu'r prawf cyfoeth?

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 Grantiau Adnewyddu a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gorfodol, yng hyd â grantiau i landlordiaid a grantiau mân weithiau. Roedd y Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rhoi profion modd i ymgeiswyr iddynt gyfrannu tuag at gost y gwaith. Daw'r ddeddfwriaeth gyfredol dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, a ddisodlodd Ddeddf 1989.

Mae Gorchymyn Grantiau Adnewyddu Tai (Gwasanaethau a Chodi Taliadau) 1996 yn darparu i gostau gwaith gynnwys amrediad o daliadau a ffioedd. Trosglwyddwyd cyfrifoldeb dan y Ddeddf i Gymru dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Ceir canllawiau i awdurdodau yng Nghymru yng nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 20/2002, a adolygwyd ddiwethaf yn 2010.

## Beth yw perthynas grantiau CiA â budd-daliadau eraill?

Ni fydd pobl sydd eu hunain (neu eu partner) ar fudd-daliadau 'pasbort' penodol yn destun prawf modd pan wnânt gais am grantiau CiA, felly ni fydd gofyn iddynt gyfrannu dim tuag at yr addasiadau. Dyma'r budd-daliadau pasbort:

- Credyd Cynhwysol
- Gwarant Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Gostyngiad Treth Gyngor

Bydd pobl sydd ar Gredyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant wedi'u heithrio rhag cael prawf modd hefyd, cyn belled y bo'u hincwm blynyddol (i ddibenion asesu eu hawl i'r budd-daliadau hyn) wedi'i gyfrifo a'i ganfod yn llai na £15,050. Mae hyn yn creu potensial ar gyfer effaith 'ymyl y dibyn' lle bydd cynnydd bach iawn mewn incwm yn ysgogi gofyniad i gyfrannu, neu i gynyddu cyfraniadau. Ar hyn o bryd, nid oes terfyn enillion cyfatebol ar Gredyd Cynhwysol, sy'n cymryd lle'r Credyd Treth Gwaith a'r Credyd Treth Plant. Mae hyn yn golygu y gall un ymgeisydd osgoi gwneud cyfraniad tra bod un arall yn gorfod cyfrannu, er bod amgylchiadau'r ddau yr un fath ar wahân i hynny.

Gall cyfeirio ymgeiswyr at dîm cymorth lles eu cyngor lleol helpu sicrhau na fydd y rhai sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau eraill yn gorfod gwneud cyfraniadau ar gyfer grantiau CiA. Mewn un awdurdod lleol, canfuom fod ymgeiswyr am grantiau CiA sy'n cael prawf modd sy'n dangos eu bod yn gymwys ar gyfer budd-daliadau pasbort (a hwythau ddim ar y budd-daliadau hynny ar hyn o bryd) yn cael eu cyfeirio at gymorth lles. Gall hyn sicrhau bod pobl yn cael y budd-daliadau dyledus yn gyffredinol, ond mae hefyd yn golygu y caiff yr ymgeiswyr hynny eu pasbortio drwy'r system grantiau CiA ac felly na fydd angen iddynt wneud cyfraniad.

I ymgeiswyr hŷn, pensiynau (y wlad a phreifat/gwaith) yw'r rhan fwyaf o'u hincwm, er bod y swm cymwys yn uwch i bobl dros 60, sy'n lleihau'r effaith gan ei fod yn golygu bod eu cyfraniadau'n is. Tra bod Gwarant Credyd Pensiwn (GCP) yn rhoi pasbort i ymgeiswyr i gyfrannu dim, mae Pensiwn Newydd y Wladwriaeth, sydd, ar ei raddfa lawn, yn fwriadol ychydig geiniogau'n uwch na chyfradd y GCP, yn ei gwneud yn fwy tebygol yr asesir bod angen cyfraniad.

Ymhlith yr ymgeiswyr dan 60 ag incwm uwch na'r asesiad anghenion, ac nad ydynt yn derbyn budd-daliadau pasbort, bydd y bobl hynny sydd ar bensiwn preifat neu bensiwn gwaith oherwydd amgylchiadau personol. Bydd ymgeiswyr iau'n llai tebygol o fod wedi ennill unrhyw hawl i bensiwn ac mae eu henillion yn debygol o fod yn is.

I bawb sy'n dal i weithio, neu sydd â phartner mewn gwaith, cymerir eu henillion net i ystyriaeth, ar ôl diystyru swm bach. Ni chymerir budd-daliadau anabledd, gan gynnwys Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Byw i'r Anabl, i ystyriaeth, ond byddant yn cynyddu'r swm cymwys.

## Pa ddeddfwriaeth sydd ei hangen i newid y prawf modd?

I wneud unrhyw newidiadau fyddai'n gofyn am i rai mathau o waith gael eu heithrio o brofion modd byddai angen newidiadau yn y ddeddfwriaeth. Yn 2005, dilëwyd y prawf modd ar gyfer gwaith i blant a phobl ifanc trwy ddiwygio'r rheoliadau profion modd dan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2005. Gwnaed hyn drwy newid y diffiniad o 'berson perthnasol' i eithrio plant a phobl ifanc.

Fe all fod yn bosibl i Lywodraeth Cymru newid y prawf modd drwy reoliadau neu ganllawiau newydd dan adran 30(5)(c) Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, lle dywedir hyn:

> (5) Gellir darparu trwy reoliadau—
>
> (a) ar gyfer pennu'r swm a gymerir fel adnoddau ariannol unrhyw berson,
>
> (b) ar gyfer pennu'r swm cymwys y cyfeirir ato yn isadran ... (4), ac
>
> (c) ar gyfer amgylchiadau lle y dylid cymryd nad yw adnoddau ariannol person (oherwydd iddo dderbyn budd-dal rhagnodedig neu fel arall) yn fwy na'r swm cymwys.

Gallai'r 'neu fel arall' yn 30(5)(c) fod yn sail i bŵer cyffredinol i basbortio (ac felly eithrio o'r prawf modd) trwy reoliadau neu ganllawiau'n ymdrin â math neu gost y gwaith. Byddai angen profi hyn gyda chyfreithwyr Llywodraeth Cymru.

## Defnyddio Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002 i newid y prawf modd

Dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002, mae'n bosibl i awdurdodau lleol gyflwyno ffurfiau disgresiynol ar gymorth ar gyfer addasiadau tai yn ogystal â chymorth trwy grantiau CiA (sy'n parhau'n ddarpariaeth statudol orfodol). Gall y cymorth disgresiynol hwn fod ar unrhyw ffurf (e.e. grantiau neu fenthyciadau) a gellir ei roi heb amodau na therfynau ariannol. Mae hyn felly'n galluogi awdurdodau lleol i wneud addasiadau heb brawf modd. Mae'r awdurdodau lleol hynny yng Nghymru a Lloegr sydd eisoes wedi gwneud newidiadau i'r prawf modd wedi gwneud hynny drwy Orchymyn 2002. Yn 2018 roedd bron bob awdurdod lleol yng Nghymru (18 allan o 22) wedi defnyddio'r hyblygrwydd oedd ar gael drwy

Orchymyn 2002, a rhai wedi'i ddefnyddio i wneud addasiadau heb fod angen prawf modd ar gyfer rhai mathau neu gostau gwaith (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018: 21).

Defnyddio Gorchymyn 2002 yw'r ffordd symlaf i awdurdodau lleol newid y prawf modd ar gyfer addasiadau, gan nad yw'n gofyn am ddeddfwriaeth newydd. Mae hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol wrthdroi'r newidiadau hynny os bydd angen. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau lleol wedi gwneud newidiadau i'r prawf modd drwy Orchymyn 2002, ond wedi i'r costau gynyddu fe wrth-drowyd y newidiadau'n ddiweddarach am nad oedd eu hamgylchiadau ariannol yn ddigonol mwyach.

Mewn effaith, petai pob awdurdod lleol yn defnyddio Gorchymyn 2002 fel hyn, byddai'n golygu mai dim ond addasiadau mawr a gyflawnid drwy lwybr y grant CiA gorfodol, a byddai pob un arall yn cael ei gyflawni drwy ffurfiau newydd disgresiynol o gymorth.

Yn lle mwy o ddeddfwriaeth, gallai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau anstatudol wedi'u diweddaru i awdurdodau lleol, yn argymell dileu'r prawf modd ar gyfer addasiadau bach a chanolig drwy ddefnyddio Gorchymyn 2002. Fodd bynnag, o gofio goblygiadau dileu'r prawf modd (a drafodir yn yr adrannau nesaf), efallai na fydd cyhoeddi canllawiau'n ddigon i sicrhau newid. Efallai y bydd angen camau pellach i annog awdurdodau lleol i gydymffurfio. Trafodir y camau hynny yn y casgliadau. Gallai deddfwriaeth newydd ddilyn yn ddiweddarach petai Gweinidogion eisiau gwneud y newid yn un gorfodol.


# Beth yw goblygiadau ariannol dileu'r prawf modd?

## Costau hanesyddol cyfraniadau heb y prawf modd

Rhoddir cymorth tuag at addasu tai yng Nghymru mewn sawl ffordd. Yn ogystal â grantiau CiA, ceir Grantiau Addasiadau Ffisegol, HWYLUSO, Rhaglen Addasiadau Brys, y Gronfa Gofal Integredig, a chyllid gan landlordiaid cymdeithasol. Er cyfrif am ddim ond 4,115 o'r addasiadau yn 2018-19, roedd grantiau CiA yn cyfrif am dros hanner cost y gwaith a wnaed.


Roedd cost gwaith a wnaed dan grantiau CiA yn amrywio o £2.50 i £109,279, ac yn £4,560 ar gyfartaledd. Fel y gwelir yn **Ffigur 1**, roedd y gost wedi'i chrynhoi dan £10,000.

**Ffigur 1: Cost gwaith dan grantiau CiA, 2018-19**




O’r rhain, roedd cost y rhan fwyaf o’r gweithiau dan £1,000, fel y dengys Ffigur 2.

**Ffigur 2: Cost gwaith dan grantiau CiA, £0-10,000, 2018-19**



Mae Tabl 2[1] yn dosbarthu'r gweithiau hyn yn ôl y math o waith (fel a restrir yn safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai Llywodraeth Cymru) a chost y gwaith. Er y dylai gweithiau bach fod wedi'u heithrio o brawf modd, dengys Tabl 2 y cafwyd prawf modd ar gyfer nifer fach o'r achosion hyn. Mae hyn yn dangos na ddilynir y canllawiau cyfredol ymhob achos.

[1] Mae data ar grantiau CiA yn anghyflawn, ac felly mae'r ffigurau a ddefnyddir yn y tabl hwn a'r rhai nesaf yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar gyfer pob maes penodol. O ganlyniad, nid yw'r data ar draws tablau o reidrwydd yn gymharol â'i gilydd. Felly, er enghraifft, nid yw'r data yn Nhabl 2 o reidrwydd yn mapio ar y data yn Nhabl 3.

### Tabl 2: grantiau CiA wedi'u dosbarthu yn ôl math, cost, a chyfraniadau 2018-19

| | Bach | Canolig | Mawr |
|---|---|---|---|
| **Nifer achosion** | 1507 | 2214 | 269 |
| **Cyfanswm cost y gwaith** | £731,675 | £12,424,235 | £4,837,976 |
| **Cyfartaledd cost y gwaith** | £485 | £5,611 | £17,985 |
| **Nifer a gafodd brawf modd** | 24 | 1,569 | 201 |
| **Nifer yr aseswyd bod angen iddynt gyfrannu** | 5 | 165 | 39 |
| **Cyfanswm cyfraniadau** | £2,711 | £235,505 | £187,647 |
| **Cyfanswm cyfraniadau (bach a chanolig)** | **£238,216** | | |
| **Cyfartaledd cyfraniad** | £542 | £1,427 | £4,811 |
| **Cymorth grant** | £728,964 | £12,188,730 | £4,650,329 |
| **Cyfartaledd grant** | £483.72 | £5,505 | £17,287 |

Mae Tabl 2 yn dangos beth fuasai'r cynnydd yng nghost cyfalaf gwaith yn 2018-19 petai'r prawf modd ar gyfer grantiau CiA bach a chanolig wedi'i ddileu. Gan gymryd mai dim ond addasiadau mawr fuasai wedi cael sylw, dim ond 269 o achosion fuasai wedi bod yn destun prawf modd. Buasai hyn wedi golygu y byddai gwerth rhyw £13 miliwn o addasiadau wedi digwydd heb brawf modd yn 2018-19. Y canlyniad yw y buasai costau cyfalaf i awdurdodau lleol wedi bod £238,216 yn uwch.

Mae'r goblygiadau i awdurdodau lleol unigol yn amrywio, fel y dengys Tabl 3.

## Table 3: Y defnydd o grantiau CiA i wneud addasiadau, fesul awdurdod lleol (2018-19)[2]

| **Cyngor** | **Bach** | | | **Canolig** | | | **Mawr** | | | **Cynlluniau eraill a ddefnyddiwyd** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer profion modd | Nifer oedd angen cyfrannu | Cyfanswm cyfraniad (£) | Nifer profion modd | Nifer oedd angen cyfrannu | Cyfanswm cyfraniad (£) | Nifer profion modd | Nifer oedd angen cyfrannu | Cyfanswm cyfraniad (£) | **ALl yn uniongyrchol, dim grant CiA** | **Nid ALl yn uniongyrchol, dim grant CiA** |
| Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 139 Hwyluso | |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 27 | 8 | 12,004 | 2 | 1 | 2,293 | | |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 352 cymysg (340 arian ALl - arall) | Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro 4308 cymysg |
| Caerdydd | 8 | 0 | 0 | 461 | 36 | 47,516 | 36 | 7 | 7,754 | | Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro 4308 cymysg |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 33 | 9 | 5,459 | 0 | 0 | 0 | | |
| Casnewydd | 0 | 0 | 0 | 106 | 10 | 21,173 | 2 | 0 | 0 | | |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 0 | 180 | 15 | 36,112 | 27 | 3 | 6,998 | | |
| Ceredigion | 9 | 0 | 0 | 97 | 9 | 17,948 | 10 | 3 | 44,095 | | |
| Conwy | 0 | 0 | 0 | 7 | 5 | 3,324 | 1 | 1 | 1100.98 | | |

[2] Mewn rhai achosion does dim data, felly nid yw'n bosibl priodoli pob achos i awdurdod lleol.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 4 | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 7 | 1 | 858 | | |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Gofal a Thrwsio Cwm Taf 1185 cymysg |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Gofal a Thrwsio 735 Hwyluso |
| Powys | 2 | 1 | 2,450 | 34 | 5 | 18,306 | 1 | 0 | 0 | | |
| Rhondda Cynon Taf | 0 | 0 | 0 | 297 | 32 | 36,611 | 63 | 10 | 28,335 | | |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 50 | 3 | 5,096 | 8 | 0 | 0 | | |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 Hwyluso | Gofal a Thrwsio G-dd Cymru 576 cymysg |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 81 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | |
| Sir Gâr | 0 | 0 | 0 | 150 | 21 | 14,321 | 31 | 6 | 7,412 | | |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 27 | 2 | 2,770 | 1 | 0 | 0 | | |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 11 | 5 | 6,092 | 4 | 2 | 1,159 | | |
| Wrecsam | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Gofal a Thrwsio G-dd Cymru 576 cymysg |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 3,090 | 2 | 2 | 2,361 | | |
| **Cyfanswm** | **23** | **1** | **2,450** | **1,544** | **162** | **229,823** | **195** | **36** | **102, 366** | | |

Mae Tablau 2 a 3 yn dangos bod achosion bach a chanolig, yn ôl data 2018-19, yn cyfrif am oddeutu 55% o gyfanswm cyfraniadau ar draws pob awdurdod lleol tra bod achosion mawr (45% o'r holl gyfraniadau), yn enwedig uwchben lefel yr uchafswm grant, yn sylweddol; er enghraifft, mae cyfanswm cyfraniadau tri achos yn RhCT yn £85,645.

Petai'r prawf modd yn cael ei ddileu ar gyfer gweithiau bach a chanolig, fyddai wyth awdurdod lleol yn gweld dim cynnydd mewn costau cyfalaf. I'r 14 a fyddai'n gweld cynnydd, mae hyn yn amrywio o £2,770 yn Sir y Fflint i £47,516 yng Nghaerdydd. Yn chwech o'r awdurdodau lleol hyn, byddai'r costau cyfalaf ychwanegol hyn yn llai na £10,000. Mae angen gosod hyn yng nghyd-destun gwariant cynghorau unigol ar addasiadau, ond mae'n awgrymu y byddai gwahanol gynghorau'n gweld gwahanol oblygiadau o ran cost.

Mae'n bwysig nodi mai data un flwyddyn yn unig (2018-19) a gynrychiolir yn y ffigurau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau hyn, ac nad oes data cymharol ar gael am y blynyddoedd cyn hynny. Felly does dim modd gosod yr amcangyfrifon hyn yng nghyd-destun tueddiadau mwy hirdymor o ran achosion a gwariant ar grantiau CiA.

## Costau gweinyddol profion modd

Mae'r data a drafodwyd yn yr adran flaenorol yn ymwneud â chostau cyfalaf newid y prawf modd. Mae costau ychwanegol i'r cyngor yn gysylltiedig â'r prawf modd, fel costau'r amser a dreulir gan swyddog yn gweinyddu'r prawf, sydd heb eu cynnwys yn y ffigurau uchod a heb eu casglu'n systematig.


Canfu astudiaeth flaenorol fod yr amser a gymerir i weinyddu'r prawf modd yn cyfrannu at oedi ac nad yw'n gost-effeithiol (Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 2018; Bibbings et al., 2015). Gallodd rhai ymarferwyr amcangyfrif costau gweinyddu'r prawf modd yn eu hawdurdodau lleol. Yn ôl eu hamcangyfrif hwy, gall gymryd rhwng 90 munud a dwy awr i wneud prawf modd ar gyfer un cais, a hynny weithiau wedi'i wasgaru dros wythnosau lawer am fod angen i'r ymgeisydd gyflwyno gwybodaeth ariannol, sydd ddim bob amser yn hawdd ei chael. Mae'r costau cysylltiedig â gweinyddu'r prawf modd yn amrywio o awdurdod i awdurdod – mae'n dibynnu ar radd y swyddog sy'n cynnal y prawf, faint o amser mae'n ei gymryd i ymgeiswyr ddarganfod y dogfennau perthnasol, a sawl achos mae'n rhaid i swyddogion fynd ar eu hôl am nad ydynt wedi cael y dogfennau – ond amcangyfrifwyd bod y gost rywle rhwng £6-10,000 y flwyddyn i bob awdurdod lleol. Dyma swm sy'n gyfwerth yn fras â faint o wariant cyfalaf ychwanegol a ddeuai i ran y rhan fwyaf o awdurdodau lleol petai profion modd wedi'u dileu ar gyfer gweithiau bach a chanolig yn 2018-19. Dylid nodi na fu'n bosibl amcangyfrif faint o'r amser hwn fuasai wedi'i dreulio'n gweinyddu'r prawf modd i weithiau canolig o gymharu â rhai mawr, er, o wybod cyn lleied o

weithiau mawr a gyflawnir bob blwyddyn, disgwylir y byddai cyfran y costau cysylltiedig â gweinyddu'r prawf modd ar gyfer gweithiau canolig yn fawr.

## Effaith newidiadau ar ffynonellau cyllid eraill ar gyfer addasiadau

Yn 2018-2019, roedd cynlluniau cyllido ar gyfer addasiadau tai o bob ffynhonnell, gan gynnwys y grant CiA, yn cyfrannu at waith gwerth cyfanswm o £31.6 miliwn ar 30,000 o adeiladau. Roedd cost y gwaith yn amrywio o £2.50 i £109,000, ac yn £1,053 ar gyfartaledd. Mae hyn yn amrediad tebyg i gost gweithiau ar gyfer grantiau CiA, ond mae'r cyfartaledd ar draws cynlluniau cyllido yn is am fod y rhan fwyaf o'r gweithiau'n costio llai na £500.

**Ffigur 3: Cyllid ar gyfer addasiadau tai, 2018-19 (£)**




Mae amrywiaeth hefyd yn y defnydd o gynlluniau cyllido, fel y dengys Tabl 3. Nid pob awdurdod lleol yng Nghymru sy'n defnyddio grantiau CiA. Yn 2018-19, wnaeth pum awdurdod lleol ddim defnydd o'r cynllun grantiau CiA, gan ddefnyddio cynlluniau cyllido eraill yn lle hynny.

Mae'r ffordd y gallai newidiadau i'r prawf modd ar gyfer grantiau CiA effeithio ar y modd y defnyddir ffynonellau cyllid eraill ar gyfer addasiadau yn debygol felly o amrywio rhwng awdurdodau, yn dibynnu ar sut y defnyddiant y gwahanol gynlluniau. Dywedodd ymarferwyr yng Nghymru yn gyffredinol nad oeddent yn disgwyl y byddai newid yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r modd y defnyddient ffynonellau cyllid eraill. Dywedodd un wrthym eu bod yn cyfeirio ymgeiswyr at ffynonellau cyllid eraill os canfyddir fod arnynt angen cyfraniad ar gyfer addasiadau drwy grantiau CiA, ac felly rhagwelai y gallai hynny newid petai'r prawf modd yn cael ei newid; dywedodd un arall fod gweithiau llai yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Gofal a Thrwsio gan ddefnyddio cyllid y Rhaglen Addasiadau Brys, ond bod y gweithiau hyn yn gofyn am gyfraniad o £50 gan ymgeiswyr, ac felly y gallent yn hytrach gael eu gwneud drwy grantiau CiA er mwyn osgoi'r tâl.

## Y posibilrwydd y ceir mwy o geisiadau

Er mwyn asesu effaith ariannol dileu'r prawf modd ar gyfer grantiau CiA bach a chanolig mae'n bwysig ystyried y posibilrwydd y ceir mwy o alw. Gellid gweld llai o dynnu'n ôl (pobl yn gwneud cais am grantiau CiA ond yn tynnu'n ôl o'r broses wedi canfod fod prawf modd, neu os yw'r prawf modd yn canfod bod angen iddynt gyfrannu), neu fwy o geisiadau gan bobl na fuasai fel arall wedi gwneud cais am grant.

Mae astudiaethau blaenorol yn Lloegr wedi ceisio amcangyfrif y boblogaeth a allai fod yn gymwys i gael grantiau CiA. Mae Arolwg Tai Lloegr yn casglu data ar hygyrchedd cartrefi i bobl anabl, ac wedi amcangyfrif fod ychydig dan filiwn o dai yn Lloegr yn 2014-15 angen addasiadau ond heb eu cael, a bod 21% o'r rhain wedi dweud mai am na allent eu fforddio yr oedd hynny (Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2015). Nid yw'r data'n dangos pa fathau o addasiadau yw'r rhain nac a fyddai'r bobl hyn eisoes yn gymwys i gael grantiau CiA heb brawf modd (h.y. am eu bod ar fudd-daliadau gyda phrawf modd yn barod), ac mae'r data'n seiliedig ar air preswylwyr yn hytrach na therapyddion galwedigaethol/aseswyr dibynadwy. Ni chesglir data cymharol yng Nghymru, ond hyd yn oed pe gwneid, ni fyddai hynny'n rhoi sail gadarn ar gyfer asesu'r angen am y rhesymau a nodwyd. Mae'r Arolwg Cyflwr Tai Cymru diweddaraf yn canfod bod perygl Categori 1 HHSRS – sef perygl difrifol nawr i ddiogelwch person (Llywodraeth Cymru, 2019b) – yn bresennol mewn 18% o gartrefi yng Nghymru, ond nid yw'n hysbys faint o'r trigolion hyn sy'n anabl.

Felly mae'r canfyddiadau yn yr adran hon yn seiliedig ar amcangyfrifon gan yr ymarferwyr y buom yn siarad â nhw ac ni ellir eu hystyried ond fel arwydd o'r cynnydd yn y galw a allai ddigwydd.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn Lloegr a wnaeth newidiadau i'r prawf modd wedi gweld cynnydd mewn ceisiadau am grantiau CiA. Yn gyffredinol, roedd yr awdurdodau lleol yng Nghymru y buom ni'n siarad â nhw hefyd yn rhagweld cryn gynnydd yn y galw yn sgil unrhyw newidiadau. Ond teimlai un ymarferwr nad oedd y galw'n debygol o gynyddu, ac nad oedd wedi cynyddu pan oedd eu hawdurdod lleol nhw wedi dileu'r prawf modd ar gyfer cawodydd heb ris a lifftiau grisiau (sef y rhan fwyaf o'r gweithiau a ddosberthir yn waith 'canolig'). Y ddadl oedd nad addasiadau ar sail 'dyhead' oedd y rhain ac felly na fyddai'r galw'n cynyddu gan fod unigolion yn annhebygol o wneud cais am addasiadau oni bai fod gwir angen amdanynt.

### Prawf modd yn atal ymgeiswyr

Bydd rhai unigolion yn tynnu'n ôl o'r broses ymgeisio am grantiau CiA oherwydd y prawf modd – naill ai am nad ydynt eisiau datgelu gwybodaeth ariannol, neu am eu bod wedi cael prawf modd ac wedyn yn gyndyn neu'n anabl i wneud y cyfraniadau a aseswyd. Mae ymarferwyr yng Nghymru a Lloegr sy'n casglu data ar hyn yn amcangyfrif fod rhwng 10-30% o ymgeiswyr yn tynnu'n ôl bob blwyddyn oherwydd y prawf modd. Nid yw'n hysbys pa gyfran o'r rhain fyddai'n geisiadau am waith bach a chanolig, ond gellid tybio y byddai'r rhaniad yn debyg i'r un ar gyfer ceisiadau a gwblheir.

Does dim modd asesu angen na chafodd ei ddiwallu gyda'r data sydd ar gael. Dadleuodd rhai ymarferwyr fod y prawf modd yn gweithredu fel 'ceidwad y porth' ar gyfer grantiau CiA, a'u bod yn cael sawl ymholiad am addasiadau nad ânt ddim pellach unwaith y canfyddo'r darpar ymgeiswyr y gall fod prawf modd. Fodd bynnag, ar y cyfan nid oeddent yn gallu amcangyfrif faint o bobl fyddai'n gwneud cais pe na bai'r prawf modd yno, ac roedd ymarferwyr yng Nghymru'n pryderu y gallai'r ffigur hon fod yn uchel.

### Rhagweld cynnydd mewn ceisiadau

Un ffordd o asesu'r effaith botensial ar geisiadau yw edrych ar beth ddigwyddodd mewn awdurdodau lleol sydd eisoes wedi gwneud newidiadau i'r prawf modd (gan ddefnyddio Gorchymyn 2002). O'r rhain, gwelodd y rhan fwyaf gynnydd rhwng 20-40% mewn ceisiadau. Nid yw hyn o reidrwydd yn ganlyniad unigolion fyddai heb wneud cais am addasiadau o'r blaen, ond gallai adlewyrchu'r ffaith fod mwy o geisiadau'n mynd drwy'r system yn gyflymach na phan oedd y prawf modd ar waith.

Fodd bynnag, roedd y newidiadau a wnaed yn amrywio ar draws awdurdodau lleol: dileodd rhai y prawf modd ar gyfer rhai categorïau o waith, a dileodd eraill y prawf hyd at ryw derfyn ariannol. Gwnaeth y rhan fwyaf newidiadau i'r prawf modd ar yr un pryd ag y cyflwynwyd set o newidiadau eraill i'r modd roeddent yn cyflawni addasiadau tai (eto gan ddefnyddio Gorchymyn 2002). Ymhlith y rhain roedd cyflwyno grantiau newydd ar gyfer dibenion penodol (fel galluogi rhyddhau o'r ysbyty) neu grwpiau penodol (fel achosion lliniarol), a lansio ymgyrchoedd marchnata i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd fod modd cael addasiadau. Felly mae'n amhosib gwahanu effaith newid y prawf modd oddi wrth effaith gwneud y newidiadau eraill hyn, ac nid yw'r ffigurau hyn chwaith wedi'u gosod yng nghyd-destun tueddiadau mwy hirdymor. At hynny, dywedodd ymarferwyr y buom ni'n siarad â nhw nad oeddent wedi gweld unrhyw gynnydd sylweddol mewn ceisiadau pan ddilëwyd y prawf modd ar gyfer gwaith dros blant a phobl ifanc yn 2005, er bod y rhain yn gyfran fach o'r achosion.

### Hysbysebu newidiadau

Gallai sut yr hysbysebir newidiadau, ac i ba raddau, effeithio ar gynnydd neu leihad mewn ceisiadau. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi buddsoddi mewn hyrwyddo'r cymorth a gynigiant ar gyfer addasiadau ar yr un pryd â newid y prawf modd, trwy ddulliau fel ailfrandio gwasanaethau, hysbysebu mewn papurau lleol ac ar arosfannau bysus, a gwaith estyn allan gyda meddygon teulu ac ysbytai. Ond doedd yr un ohonynt wedi hysbysebu'r newid i'r prawf modd yn benodol, ac roedd pawb y buom yn siarad â nhw'n cytuno na ddylid hysbysebu unrhyw newidiadau i'r prawf modd i'r cyhoedd, a hynny am eu bod yn pryderu y gallai gwneud hynny gynyddu ceisiadau, ond hefyd am y byddai'n ei gwneud yn haws iddynt wrthdroi unrhyw newidiadau petai angen.

Serch hynny, mae astudiaethau yn y gorffennol wedi argymell y dylai grantiau CiA gael eu hyrwyddo'n well er mwyn codi ymwybyddiaeth a chywiro camargraff ymysg y cyhoedd nad oes cymorth ar gael (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018: 20; Bibbings et al., 2015: 62-63). Dylid ystyried yn ofalus beth fyddai'r goblygiadau o ran cydraddoldeb yn sgil unrhyw benderfyniad i beidio â hysbysebu newidiadau, yn enwedig petai gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru'n mynd ati mewn ffyrdd gwahanol i gyhoeddi'r newidiadau a wnaed.

# Beth yw goblygiadau cymdeithasol dileu'r prawf modd?

## Priodoleddau ymgeiswyr am grantiau CiA

Mae data ynghylch pwy sy'n ymgeisio am grantiau CiA ac yn derbyn yn gyfyngedig i oed. Yn 2018-19, pobl 66 oed a throsodd oedd mwyafrif yr ymgeiswyr am grantiau CiA (2,376) o gymharu â rhai dan 66 (1,312).[3] Cyfanswm cost pob gwaith a gafodd grant CiA oedd £9,227,633 i'r ymgeiswyr hŷn a £7,750,237 i'r rhai 18-66 oed, gyda chyfartaledd cost o £3,884 (hŷn) a £5,908 (iau). Gwnaeth pobl hŷn 159 o gyfraniadau, cyfanswm o £231,726, cyfartaledd o £1,457.40. Gwnaeth ymgeiswyr iau 36 o gyfraniadau, cyfanswm o £167,503, cyfartaledd o £4,653.

Mae enillion neu bensiynau gan y rhai sy'n fwyaf tebygol o gael eu gofyn i gyfrannu. Bydd gofyn i bobl â mwy o enillion neu bensiwn (neu'r ddau) dalu costau'r gwaith yn

---

[3] Roedd 181 dyddiad geni heb eu cofnodi.

gyfan. Bydd tenantiaid (preifat a chymdeithasol) mewn amgylchiadau tebyg yn llai tebygol o orfod gwneud cyfraniad.

## Pwy fyddai'n gweld yr effaith, a sut?

Mae'n anodd rhoi asesiad manwl, ar sail y data sydd ar gael, o bwy fyddai'n teimlo'r effaith, a sut, o ddileu'r prawf modd ar gyfer gwaith bach a chanolig. Yn yr un modd, mae'n amhosib cyfrif am y rheiny sydd, dan y system bresennol, wedi'u hatal rhag gwneud cais am grantiau CiA oherwydd y prawf modd (fel y soniwyd uchod). Er gwaethaf hynny, mae'n bosib dweud hyn:

- **Mae'r newid yn annhebygol o effeithio ar benderfyniad ymgeisydd i gymryd gwaith newydd neu beidio** (fel y gallai prawf modd), gan yr asesir grantiau CiA drwy ddefnyddio ciplun o amgylchiadau ar ddiwrnod arbennig.
- **Mewn nifer fach o achosion, gallai effeithio ar benderfyniadau am gyfalaf**, megis penderfyniad i ddefnyddio cynilion pensiwn.
- **Ni fyddai aelwydydd incwm isel sydd eisoes ar fudd-daliadau prawf modd yn elwa** gan nad oes raid iddyn nhw gael prawf modd ar gyfer grantiau CiA fel y mae hi nawr.
- **Byddai aelwydydd incwm canolig gyda morgeisi yn elwa** os aseswyd ar hyn o bryd eu bod yn gallu fforddio benthyciad ond eu bod yn methu ei fforddio mewn gwirionedd. Ychydig o gynilion sydd gan lawer ac nid yw'r cyfrifiadau costau tai o reidrwydd yn ystyried y costau gwirioneddol.
- **Byddai aelwydydd â'r incwm mwyaf yn elwa** gan y buasent wedi cael eu hasesu o'r blaen a chanfod y gallent fforddio addasiadau heb gymorth ariannol. Mae rhai ymarferwyr yng Nghymru'n pryderu y byddai'r newidiadau a gynigir yn golygu bod pobl sy'n gallu fforddio talu am addasiadau eu hunain yn defnyddio arian cyhoeddus ar gyfer y gwaith hwn. Teimlent fod hyn yn annheg ac y dylai pawb sy'n gallu fforddio talu ddal i wneud hynny. Teimlai eraill y byddai'r bobl sy'n gallu fforddio hynny yn dal i wneud addasiadau eu hunain yn hytrach na thrwy grantiau CiA, am y byddai hynny fel arfer yn gyflymach.
- **Ni fyddai unrhyw aelwyd yn colli allan,** oni bai fod newidiadau eraill yn digwydd sy'n arwain at gyfraniadau uwch gan bobl sydd angen gwaith mawr, er enghraifft, neu petai'r newid yn arwain at fwy o geisiadau a bod hynny'n achosi oedi ychwanegol.

# Beth yw canlyniadau ymarferol dileu'r prawf modd?

## Delio â goblygiadau ariannol cynnydd mewn ceisiadau

Disgwylid yn gyffredinol y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r prawf modd yn arwain at gynnydd mewn ceisiadau ac felly y byddent yn rhoi straen ychwanegol ar gyllidebau cynghorau. Yn Lloegr, yn wahanol i Gymru, mae cyllid grantiau CiA wedi'i glustnodi. Cynyddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyllid cyfalaf ar gyfer addasiadau yn sylweddol yn 2016-17, felly roedd gan gynghorau Lloegr gyllideb ychwanegol i'w gwario. Roedd yr awdurdodau lleol yn Lloegr a oedd wedi newid y prawf modd wedi gallu gwneud hynny ar y cyfan am eu bod gynt wedi bod yn tanwario ar eu dyraniad ar gyfer grantiau CiA. Felly, amcan y newidiadau a gyflwynwyd oedd gwneud iddynt wario mwy ar addasiadau, ac yn gyffredinol cafodd y cynnydd mewn costau refeniw ei dalu drwy'r ffioedd[4] y mae awdurdodau lleol yn gallu eu codi i ddarparu grantiau CiA (Mackintosh et al., 2018).

Yng Nghymru, dywedodd ymarferwyr wrthym nad oedd ganddynt gyllideb ychwanegol ar gael i gynyddu gwariant ar addasiadau ac y byddai arnynt angen cyllid ychwanegol i ateb ceisiadau ychwanegol. Petai ceisiadau'n cynyddu ond bod awdurdodau lleol yn methu ateb y galw, gallai hyn arwain at ohirio ceisiadau am addasiadau a byddai hynny'n cynyddu amserau aros.

Fodd bynnag, roedd sawl awdurdod lleol a oedd wedi newid y prawf modd wedi gwneud hynny er mwyn gwella canlyniadau iechyd ac arbed arian wedyn mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae tystiolaeth yn dangos bod buddsoddi mewn addasiadau tai yn gam ataliol i gynyddu annibyniaeth a galluogi pobl i aros yn eu cartrefi yn hytrach na bod angen gofal preswyl costus neu arosiadau hir yn yr ysbyty (Watson et al., 2019; Golding-Day a Whitehead, 2020; Mackintosh et al., 2018: 54-59; Gofal a Thrwsio Cymru, 2019). Felly bydd unrhyw gynnydd mewn gwariant ar addasiadau'n lleihau costau yn rhywle arall, a hynny yn y pen draw'n lleddfu'r pwysau ar gyllidebau llywodraeth leol a'r GIG.

[4] Ffioedd yw'r rhain y gall awdurdodau lleol eu codi i helpu gyda rheoli addasiadau. Ni chânt eu pasio ymlaen i'r ymgeisydd, ond eu hychwanegu at gost y gwaith a derbyn cymhorthdal fel modd o drosglwyddo arian o gyllidebau cyfalaf i dalu am anghenion refeniw.

## Goblygiadau o ran sicrhau adnoddau

Petai ceisiadau'n cynyddu, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru'n disgwyl y byddai angen swyddogion ychwanegol i weinyddu grantiau CiA, a hynny wedi cyfrif am unrhyw amser a arbedid wrth beidio cynnal y prawf modd. Cytunodd y rhan fwyaf fod eu Therapyddion Galwedigaethol eisoes dan bwysau ac y byddai angen mwy ohonynt os am wneud mwy o asesiadau. Mae prinder Therapyddion yn broblem sydd eisoes wedi'i nodi fel un sy'n cyfrannu at amserau aros hir am addasiadau yng Nghymru (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018).

Mae gan rai awdurdodau lleol swyddogion hyfforddedig yn aseswyr dibynadwy, fel mai nid therapyddion galwedigaethol yw'r unig rai cymwys i asesu'r gwaith sydd ei angen mewn eiddo. Mae hyn wedi lleihau'r pwysau ar y therapyddion, yn enwedig os yw'r rheiny'n gweithio ar draws sawl adran a heb fod yn canolbwyntio'n unig ar asesiadau addasiadau tai. Am yr un rheswm, gall penodi therapyddion galwedigaethol o fewn timau addasiadau hefyd leihau'r pwysau ar therapyddion. Mae awdurdodau lleol eraill wedi defnyddio therapyddion galwedigaethol annibynnol i glirio rhestrau aros, neu i ddelio â mathau penodol o achosion lle ceir angen heb ei ddiwallu. Bydd rhai'n defnyddio staff asiantaeth ar gyfer pob achos, a all wastatáu brigau a chafnau mewn ceisiadau i gadw amserau aros i lawr (Mackintosh, 2019). Cyflogir aseswyr dibynadwy hefyd gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd, Gofal a Thrwsio Cymru a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a gallai mwy o gydlynu rhwng yr asiantaethau hyn, fel rhannu aseswyr dibynadwy, hefyd liniaru rhai o'r heriau hyn. Felly gallai mwy o ddefnydd o aseswyr dibynadwy a ffyrdd gwahanol o ddefnyddio therapyddion galwedigaethol liniaru unrhyw bwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol yn sgil cynnydd mewn ceisiadau, er y gall fod goblygiadau ariannol i hyn.

Roedd cymysgedd barn ynghylch a fyddai yno ddigon o gontractwyr yn abl i gwblhau gwaith petai ceisiadau'n cynyddu, ond dywedodd amryw o ymarferwyr yng Nghymru nad oes digon o gontractwyr ar hyn o bryd i wneud gwaith angenrheidiol ac y byddai unrhyw gynnydd mewn ceisiadau'n cael effaith niweidiol ar hyn. Mae hyn yn dibynnu'n rhannol ar y canlynol: a oes gan awdurdodau lleol gontractau fframwaith gyda chontractwyr yn seiliedig ar lefelau rhagamcanedig penodol o angen y byddai'n rhaid eu hail-negodi petai ceisiadau'n cynyddu; pa mor hawdd y gallant ddod o hyd i ddigon o gontractwyr i gyflawni addasiadau ar hyn o bryd; ac a yw contractwyr yn cael eu comisiynu'n uniongyrchol gan y cyngor neu gan unigolion.

Gellid lliniaru unrhyw effaith negyddol drwy wella arferion comisiynu. Teimlai rhai y gellid gwneud arbedion mewn grantiau CiA (o ran arian ac amser) drwy wneud gwelliannau i'r ffordd y comisiynir contractwyr. Canfuwyd fod defnyddio contractau fframwaith yn helpu sicrhau pris da gan gontractwyr a sicrhau bod y gwaith a wneir o

ansawdd da. Mewn un awdurdod lleol yn Lloegr, roedd cyfartaledd cost grant CiA yn arfer bod yn £12,000; wedi adolygu eu contractau ac ail-negodi prisiau gyda chontractwyr, daethpwyd â'r gost i lawr i £5,000.

## Amserau aros

Cyn y pandemig, roedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes restrau aros hir am grantiau CiA – sef yr amser rhwng y cais gwreiddiol a chwblhau'r gwaith. Y cyfartaledd yng Nghymru yn 2018-19 oedd 207 diwrnod ond mae hyn yn amrywio'n sylweddol o awdurdod i awdurdod, o gyfartaledd o 126 diwrnod yng Nghonwy i 298 diwrnod yn Sir y Fflint (InfoBase Cymru, 2019). Argymhellwyd dileu'r prawf modd fel ffordd i leihau amserau aros, ynghyd ag effeithiau eraill a drafodwyd uchod (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). Dywedodd ymarferwyr yng Nghymru wrthym yr achosir amserau aros hir gan gyfuniad o ddiffyg therapyddion galwedigaethol a chontractwyr, oedi mewn adrannau neu asiantaethau eraill wrth wneud penderfyniadau (e.e. ar gynllunio), ac amser a dreuliwyd yn gweinyddu'r prawf modd (gan gynnwys aros i dderbyn dogfennau). Dywedasant hefyd fod amserau aros wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd y pandemig, gyda llawer o addasiadau ar saib yn ystod y cyfnod clo a hynny yn ei dro wedi creu ôl-groniad.

Roedd ymarferwyr yn Lloegr a oedd wedi newid y prawf modd wedi gweld lleihad dramatig mewn amserau aros am grantiau CiA. Priodolent hyn i'r lleihad yn yr amser a dreulid yn gweinyddu'r prawf modd (gan gynnwys aros i dderbyn dogfennau) yn ogystal â newidiadau eraill a wnaethant i'r modd y cyflawnid addasiadau, fel symleiddio prosesau a delio â therapyddion a chontractwyr. Disgwylir i newidiadau i'r prawf modd leihau amserau aros os gellir delio ag unrhyw gynnydd mewn ceisiadau ac os gwellir y sefyllfa o ran faint o therapyddion galwedigaethol a chontractwyr sydd ar gael. Nid yw newid y prawf modd ar ei ben ei hun yn debygol o leihau amserau aros felly.

Asesir awdurdodau lleol yng Nghymru ar amserau aros. Mynegodd rhai awdurdodau bryder petai gwaith bach a chanolig yn cael ei gyflawni dan gynllun arall, yn hytrach na thrwy'r CiA, na fyddai'r gwaith hwn mwyach yn cael ei gynnwys yn yr asesiad. Gallai hyn olygu mai dim ond addasiadau mawr – sy'n fwy cymhleth ac felly'n cymryd mwy o amser i'w cwblhau – a gâi eu cyfrif. Roedd un awdurdod lleol yng Nghymru wedi defnyddio Gorchymyn 2002 cyn hyn i ddileu'r prawf modd ar gyfer gwaith dan £5,000, cyn canfod fod eu hamserau aros yn cynyddu (gan mai dim ond amserau aros am addasiadau mawr a gâi eu cyfrif) ac felly aethant yn ôl i'r hen drefn. Ond petai pob awdurdod lleol yn dilyn yr un drefn, nid yw hyn yn debyg o fod yn broblem.

Awgrymodd un ymarferwr yn Lloegr y dylid cyflwyno amserau aros pob addasiad, nid grantiau CiA yn unig, i'r llywodraeth er mwyn osgoi'r broblem hon. Awgrymodd

ymarferwr yng Nghymru y dylai dangosyddion perfformiad fesur canlyniadau yn hytrach nag amserau aros, awgrym oedd wedi'i wneud hefyd mewn gwaith blaenorol ar grantiau CiA (Bibbings et al., 2015). Fel arall, gellid mesur amserau aros am addasiadau bach, canolig a mawr ar wahân.

# Casgliadau

Mae’r dystiolaeth a amlinellir yn y papur hwn yn amlygu dau ddewis sydd ar gael i Weinidogion i ddileu’r prawf modd ar gyfer addasiadau bach a chanolig: newid y ddeddfwriaeth neu gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer defnyddio Gorchymyn 2002. Byddai cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer Gorchymyn 2002 yn gyflymach na newid y ddeddfwriaeth, er y gallai newid deddfwriaethol ddilyn yn ddiweddarach petai Gweinidogion eisiau sicrhau’r newid ledled Cymru a gwarantu cysondeb.

Fodd bynnag, mae ein gwaith yn awgrymu y bydd angen mesurau ochr yn ochr ag unrhyw ganllawiau er mwyn annog cydymffurfio ac i sicrhau nad yw dileu’r prawf modd yn arwain at amserau aros hwy am grantiau CiA. Petai’r prawf modd ar gyfer addasiadau tai bach a chanolig yn cael ei ddileu a hynny heb arwain at gynnydd yn y ceisiadau, mae’n debyg na châi’r newidiadau fawr ddim effaith ar awdurdodau lleol. Ar sail data 2018-19 gallai awdurdodau lleol Cymru ddisgwyl i gostau cyfalaf gynyddu o gyfanswm o £238,216. Mae hyn yn amrywio’n helaeth o awdurdod i awdurdod, rhwng £2,770 a £47,516, er y dylid gosod hyn yng nghyd-destun gwariant cynghorau unigol ar addasiadau. Gellir arbed rhywfaint o hyn drwy leihau’r amser a gymerir i weinyddu’r prawf modd, buddsoddi mewn dulliau gwahanol o ddefnyddio therapyddion galwedigaethol, a gwella’r broses comisiynu contractwyr.

Petai’r newidiadau’n arwain at fwy o geisiadau, gallai’r goblygiadau fod yn fwy sylweddol. Mae’n debyg y byddai dileu’r prawf modd yn lleihau amserau aros cyfredol, ond dim ond os byddai gan gynghorau’r gallu i brosesu addasiadau ychwanegol. Yn gyffredinol, dywedodd awdurdodau lleol y buom ni’n siarad â nhw yng Nghymru nad oedd ganddynt ddigon o gyllideb na gallu i ateb cynnydd mewn ceisiadau. Felly efallai y bydd angen cyllid ychwanegol i dalu costau cyfalaf unrhyw gynnydd, ynghyd â chyllid ychwanegol i recriwtio staff ychwanegol (yn cynnwys swyddogion a therapyddion galwedigaethol). Er y gall hyn olygu bod angen mwy o gyllid ar gyfer addasiadau, mae hyn yn debygol o roi arbedion yn y tymor hir o ran iechyd a gofal cymdeithasol wrth i bobl allu aros yn eu cartrefi yn ddiogel ac yn hirach.

Ar sail canfyddiadau’r adroddiad hwn, dylid ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniadau ynghylch dileu’r prawf modd ar gyfer gwaith bach a chanolig:

- **Dylid dal i ddosbarthu addasiadau yn ôl y math o waith** (yn unol â’r Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau Tai), yn hytrach na gosod terfyn ariannol.

- **Ynghyd â dileu’r prawf modd ar gyfer addasiadau bach a chanolig byddai’n fuddiol sefydlu mesurau i annog cydymffurfio** a lliniaru unrhyw effaith negyddol ar amserau aros.

Mae awdurdodau lleol yn bryderus y bydd dileu’r prawf modd yn arwain at fwy o geisiadau, ac na fyddant yn gallu dod i ben. Gellid darparu cyllid ychwanegol am gyfnod penodol – ‘cyfnod sefydlu’ – i gynyddu’r tebygolrwydd y gwnaiff awdurdodau lleol weithredu’r newid, i sicrhau bod gan awdurdodau lleol y gallu i ymateb, ac i sicrhau na fydd amserau aros yn cynyddu.

Yn y cyfnod sefydlu a thu hwnt, byddai system well a systematig o gasglu data yn helpu i asesu goblygiadau dileu’r prawf modd. Gallai hyn gynnwys data mwy cynhwysol ar: y canlyniadau i’r rhai sy’n derbyn cymorth at addasiadau; nifer y ceisiadau; nifer y ceisiadau a dynnir yn ôl (a’r rhesymau dros dynnu’n ôl); amserau aros, wedi’u dosbarthu yn ôl addasiad; a chost y gwaith yn ôl ei fath. Yn y tymor hwy, gellid casglu data a all fesur arbedion o ran iechyd a gofal cymdeithasol yn sgil yr addasiadau hefyd. Dylai’r monitro hwn ddigwydd ar sail ranbarthol o ystyried y berthynas rhwng yr angen am addasiadau i dai a’r angen am gymorth iechyd a gofal ehangach, a byddai’n gyson â chylch gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

O ran cyhoeddi canllawiau, byddai defnyddio Gorchymyn 2002 yn caniatáu disgresiwn i gynghorau wrth wneud y newidiadau hyn. Byddai angen ystyried goblygiadau hyn ar gydraddoldeb os golygai fod pobl anabl yn dal i gael eu trin yn wahanol mewn awdurdodau nesaf at ei gilydd, er y canfyddir mai fel hyn y mae hi eisoes (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 2018). Mae hyn yn debygol os bydd amrywiaeth ledled Cymru o ran cydymffurfio â’r canllawiau. Petai hyn yn digwydd, a phe canfyddid fod dileu’r prawf modd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol a’i fod yn gost-effeithiol, efallai y dymunai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno deddfwriaeth newydd i wneud hwn yn newid gorfodol yn y dyfodol.

# Cyfeiriadau

Bibbings, J., Boniface, G., Campbell, J., Findlay, G., Reeves-McAll, E., Zhang, M. L., Zhou, P. (2015). **Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol**. Llywodraeth Cymru. Adalwyd o **https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150123-review-independent-living-adaptions-summary-cy.pdf**

Care and Repair Cymru. (2019). **Adre o'r Ysbyty i Gartref iachach – Gwerthusiad o wasanaeth peilot pwysau'r gaeaf, Ionawr-Mawrth 2019**. Adalwyd o **https://www.careandrepair.org.uk/files/1215/6578/0058/Hospital_to_a_Healthier_Home_Winter_Pressures_Pilot_Evaluation_W2.pdf**

Department for Communities and Local Government. (2015). **English Housing Survey Adaptations and Accessibility Report, 2014-15**. Adalwyd o **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/539541/Adaptations_and_Accessibility_Report.pdf**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2018). **Housing and disabled people: Wales' hidden crisis**. Adalwyd o **https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis.pdf**

Golding-Day, M. a Whitehead, P. (2020). **Bathing adaptations in the homes of older adults and their carers (BATHOUT): a qualitative extended follow-up study with concurrent nested outcome assessments**. *BMJ Open,* 10: e035701. Adalwyd o **10.1136/ bmjopen-2019-035701**

InfoBase Cymru. (2019). **Tai – Awdurdod Lleol: Tabl**. Adalwyd o **http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/localgovernment/localauthorityperformance/tabular?viewId=1771&geoId=1&subsetId=**

Mackintosh, S., Smith, P., Garrett, H., Davidson, M., Morgan, G., a Russell, R. (2018). **Disabled Facilities Grant (grant CiA) and Other Adaptations – External Review**. University of the West of England. Adalwyd o **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/762920/Independent_Review_of_the_Disabled_Facilities_Grant.pdf**

Mackintosh, S. (2019). **Ending Occupational Therapy waiting lists**. The OT Practice.

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. (2018). **Addasiadau Tai: Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**. Adalwyd o https://www.google.com/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&ved=2ahUKEwjgtLLZipLvAhXoVBUIHTmIAoUQFjAAegQIARAD&url=http%3A%2F%2Fwww.assembly.wales%2Flaid%2520documents%2Fcr-ld11703%2Fcr-ld11703-w.pdf&usg=AOvVaw3mK5XbO0X59xwQl43v4Woj

StatsCymru. (2019). **Anabledd**. Adalwyd o https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability

Swyddfa Archwilio Cymru. (2018). **Addasiadau i Dai**. Adalwyd o https://audit.wales/sites/default/files/housing-adaptations-2018-welsh_6.pdf

Watson, I., Mackenzie, F., Woodfine, L., Azam, S. (2019). **Making a Difference. Housing and Health: A Case for Investment**. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o https://phw.nhs.wales/files/housing-and-health-reports/a-case-for-investment-report/

Llywodraeth Cymru. (2019a). **Housing Adaptations Service Standards**. Adalwyd o https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/housing-adaptations-standards-of-service.pdf

Llywodraeth Cymru. (2019b). **Arolwg Cyflwr Tai Cymru**. Adalwyd o https://llyw.cymru/arolwg-cyflwr-tai-cymru

# Atodiad: Methodoleg dadansoddi data

Cymerwyd y ffigurau am gost addasiadau a chyllid yn yr adroddiad hwn o set data dienw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar sail adroddiadau a gyflwynwyd iddynt gan awdurdodau lleol. Roedd y set data yn cyfeirio at gymorthdaliadau a wnaed yn 2018-2019, ac yn cynnwys cyllid a ddarparwyd dan bob cynllun i bob achos y cyflwynwyd manylion yn ei gylch.

Roedd peth o'r data yn anghyflawn, gan achosi anghysonderau pan oedd ffactorau lluosog dan sylw. Lle defnyddir data lefel awdurdod lleol, roedd rhai achosion heb gynnwys unrhyw briodoliad ac roedd eraill yn ymwneud ag asiantaethau sy'n gweithredu ar draws ffiniau awdurdod lleol.

Aseswyd cyllid y lefel uchaf gan ddefnyddio'r set data cyflawn a ddarparwyd a defnyddiwyd data manylach am achosion a gofnodwyd fel grantiau CiA Gorfodol yn yr adroddiadau. Tynnwyd ychwaneg o ddata yn ôl categorïau maint, awdurdod lleol, a statws prawf modd.

## Yr Awduron

**Emma Taylor-Collins:** Uwch Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**Dan Bristow:** Cyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**Gareth Morgan:** Prif Weithredwr Ferret Information Systems

**Isabelle Carter:** Prentis Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Cafodd yr adroddiad hwn adolygiad cymheiriaid gan Sheila Mackintosh ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr a Dr Peng Zhou yn Ysgol Fusnes Caerdydd.

Am ragor o wybodaeth cysyllter ag:
**Emma Taylor-Collins**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded y llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru